**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Rhagfyr 2008**

## ADRODDIAD MONITRO I FWRDD YR IAITH GYMRAEG

**Adroddiad gan Colin Hanks**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr Adroddiad

**1** I adrodd fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi derbyn adborth cadarnhaol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar Adroddiad Monitro ei Gynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2007-08.

### Cefndir

**2** Mae'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynhyrchu adroddiad manwl o'i Gynllun Iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol. Mae hyn yn manylu'r cynnydd wnaed tuag at gwrdd â thargedau amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2006-2009 y Gwasanaeth.

### Gwybodaeth

**3** Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cymeradwyo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr ac yn credu fod yr adroddiad yn dangos cynnydd yng ngweithrediadau ei Gynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2007-08.

**4** Mae'r Bwrdd yn cydnabod elfennau o arfer da yn yr adroddiad ac yn croesawu agwedd y Gwasanaeth tuag at sgiliau a sicrhau fod ganddo'r gallu i gynnig gwasanaethau dwyieithog yn arbennig.

**5** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y cynnydd yng ngallu iaith Gymraeg y Gwasanaeth, drwy sicrhau fod gan staff y gallu i ddangos sgiliau cwrteisi iaith sylfaenol, fel datblygiad arwyddocaol sy'n haeddu canmoliaeth.

**6** Derbyniwyd canmoliaeth fod swyddi derbynfa yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac roedd cydnabyddiaeth gadarnhaol fod maes sgiliau iaith mewn cysylltiad ag asesiad risg yn ardal mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n galed iawn ynddo.

**7** Bydd materion sy'n codi o'r adroddiad yn cael eu trafod yn ystod cyfarfod adborth gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y dyfodol agos.

**8** Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd parthed adolygiad i broses y sefydliad o gyfeirio at unrhyw gwynion ynglŷn â'r iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn cael ei adrodd yn ôl i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y man.

**Argymhelliad**

**9** Fod aelodau yn nodi'r cynnydd wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy'r sylwadau cadarnhaol mewn cysylltiad â'r Adroddiad Monitro ar gyfer 2007-08.